**Cyfarfod: Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Lleoliad: Hydra 119 / *Teams***
**Dyddiad: 27 Tachwedd 2024**
**2.30y.h. – 2.45y.h.**

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Ms Kate Curran Chair (KC)<br>Mr Farhan Shakoor (FS)<br>Mr David Macgregor (DM)<br>Ms Julie James (JJ)<br>MS Caroline Wheeler (CW) |
| **Mynychwyr y Cyd-bwyllgor Archwilio** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Dr Richard Lewis, Prif Gwnstabl (PG)<br>Ms Carys Morgans, Prif Swyddog Gweithredol (CM)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Ms Nicola Davies, Prif Swyddog Cyllid Dros Dro (ND)<br>Ms Karen Davies, Cyllid (KD)<br>Mr Jason Blewitt, Archwilio Cymru (JB)<br>Ms Anneesa Ali (AA)<br>Ms Gaynor Maddox, Pennaeth Rhaglenni a Newid (GM)<br>Ms Nichelle Reynolds, Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro (MR)<br>Mr Neil Evans, Rheolwr Busnes SCHTh (NE) |
| **Ymddiheuriadau** | Ms Beverley Peatling, Prif Swyddog Cyllid (BP) |
| **Datganiadau o Fuddiant:** | Dim |

### 3. Derbyn Llythyrau Sylwadau drafft 2023-24

Ystyriodd yr aelodau'r llythyrau sylwadau drafft gan y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Argymhellodd yr aelodau y dylid cymeradwyo'r Llythyrau Sylwadau.

### 4. Derbyn Adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru mewn perthynas â'r cyfrifon ar gyfer 2023-24

Derbyniodd yr aelodau adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru a ddarparwyd ar ôl cwblhau gwaith ar y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2023-24 sydd wedi derbyn

barn ddiamod ar y ddau set o gyfrifon. Mae swyddogion wedi cywiro unrhyw gamgymeriadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

Gofynnodd CW pa un ai a oedd y camgymeriadau a addaswyd yn ymwneud ag amserau terfyn ar gyfer cwblhau. Cynghorodd MR mai felly yr oedd, ond mae mesurau wedi'u rhoi ar waith er mwyn osgoi hyn yn y dyfodol. Dywedodd EH fod ymarfer ôl-ddysgu'n cael ei gynnal rhwng swyddogion o Heddlu Dyfed-Powys ac Archwilio Cymru yn dilyn pob proses datganiad o gyfrifon.

**5. Argymell cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon Blynyddol ar gyfer 2023-24**

Ystyriodd yr aelodau'r Datganiad o Gyfrifon Blynyddol ar gyfer 2023-24. Nodwyd na fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r un set o gyfrifon ers y seminar.

Roedd y Cyd-bwyllgor Archwilio eisiau cofnodi ei werthfawrogiad am y gwaith a wnaed gan bawb i baratoi'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer cymeradwyaeth swyddogol. Nododd EH ddiolch i Archwilio Cymru am eu cymorth â'r broses.

Argymhellodd y Pwyllgor gymeradwyo'r cyfrifon yn swyddogol.

**6. Argymell cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Ystyriodd yr aelodau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gan nodi'r gwaith sylweddol a wnaed yn ystod y broses er mwyn cwblhau'r Datganiad. Nodwyd diolch i Gaynor Maddox a'i thîm am y gwaith ar gyfer paratoi a chwblhau'r gwaith.

Argymhellodd y Pwyllgor gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn swyddogol.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 5 Rhagfyr 2024**